

# Twyni tywod yng Nghymru

## Twyni Byw



[cyfoethnaturiol.cymru/TwyniByw](http://cyfoethnaturiol.cymru/TwyniByw)



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Cynefinoedd

Mae twyni tywod arfordirol Cymru yn dirweddau cyfareddol, eiconig ac yn un o'r rhai mwyaf naturiol a llawn rhywogaethau yn y wlad. Maen nhw'n fannau â llawer o fioamrywiaeth ac mae carpedi bywiog o flodau yn goroesi ochr yn ochr ag adar cân, gloynnod byw ac amryw byd o bryfed sydd mewn perygl.

Mae cymeriad unigryw'r twyni yn cael ei werthfawrogi gan bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd, gan eu bod yn darparu cefndir dramatig i ddiwrnod ar y traeth, lle i chwarae a gwneud ymarfer corff neu fynd am dro hamddenol ac ymlacio.

Mae tua 8,100 hectar (31 milltir sgwâr) o dwyni tywod yma yng Nghymru - prin 0.3% o arwyneb tir y wlad.

Mae dros 80 o safleoedd twyni tywod o bwys ar hyd arfordir Cymru. Maen nhw'n amrywio o'r systemau twyni helaeth yn Niwbwrch a Chynffig sy'n gorchuddio mwy na 500 hectar, i safleoedd llai fel Traeth Poppit (Sir Benfro) a Lligwy (Ynys Môn) sy'n llai na 10 hectar o faint. Mae llawer o'r safleoedd unigol yn rhan o systemau gwaddodol rhyng-gysylltiedig, mwy o faint, sy'n gysylltiedig â cherrylt arfordirol.



<b>Twyni tywod sylweddol yng Nghymru</b>	<b>Sir</b>	<b>Arwynebedd (hectarau)</b>
Gronant a Thalacre	Sir Ddinbych a Sir y Fflint	519
Conwy (Deganwy, Morfa Conwy, Bae Cinmel)	Conwy	22
Y Fali (Twyni Trewan, Fferam, Llyn a Chymyran)	Ynys Môn	301
Cwningar a Choedwig Niwbwrch	Ynys Môn	1200
Tywyn Aberffraw	Ynys Môn	300
Morfa Harlech	Meirionnydd	420
Morfa Dyffryn	Meirionnydd	320
Ynys-las	Ceredigion	68
Ystangbwill	Sir Benfro	180
Twyni Talacharn-Pentywyn	Sir Gâr	660
Arfordir Pen-bre	Sir Gâr	590
Oxwich	Abertawe	76
Twyni Chwitffordd	Abertawe	130
Twyni Cynffig	Pen-y-bont ar Ogwr	540
Cwningar Merthyr Mawr	Pen-y-bont ar Ogwr	350



Twyni Chwitffordd

# Ffeithiau am dwyni tywod

Cymru yw cartref

**11%**  
o dwyni'r DU

Dim ond

**0.3%**  
o arwyneb tir Cymru  
sy'n dwyni tywod

Cyfanswm arwynebedd  
twyni tywod yng  
Nghymru yw

**8,100**  
hectar

Nifer y systemau  
twyni tywod

**87**

Mae tua **30%**  
o arwynebedd twyni tywod  
gwreiddiol Cymru wedi'i  
golli i waith datblygu ac  
erydu ers 1900

O'r rhai sy'n weddill,  
mae **90%**  
o dywod agored wedi  
gordyfu ers y 1940au

Mae gan dwyni tywod  
yng Nghymru  
**gysylltiadau pwysig**  
**â hanes milwrol**, fel  
safleoedd hyfforddi a phrofi  
arfau cyn ac yn ystod yr Ail  
Ryfel Byd

Twyn tywod uchaf yn y DU a'r  
ail fwyaf o'i fath yn Ewrop -  
**'Big Dipper' ym**  
**Merthyr Mawr sydd**  
**dros 60 metr**  
**o uchder**

Datblygodd rhai o dwyni  
Cymru yn ystod stormydd  
mawr yn y 14eg Ganrif ond  
mae **Twyni Pen-bre yn**  
**llai na 80 mlwydd oed**

Mae twyni tywod yn cynnal  
tua **90 rhywogaeth o**  
**blanhigion a ffyngau**  
sydd naill ai'n brin neu  
mewn perygl

Rhestrir twyni tywod fel  
un o'r cynefinoedd  
**sydd mewn**  
**perygl fwyaf**  
yn Ewrop

I greu amodau delfrydol ar  
gyfer bywyd gwyllt, mae  
angen **10-15% o dywod**  
**noeth, ond dim ond**  
**3% sydd gan lawer**  
**o dwyni**

Y Warchodfa Natur  
Genedlaethol arfordirol  
gyntaf oedd  
**Cwningar Niwbwrch,**  
a ddynodwyd ym 1955

Mae dros **5000 o**  
**rywogaethau o**  
**infertebratau** i'w cael  
ar dwyni Cymru, gyda  
**dros 280 yn brin yn**  
**genedlaethol**

Mae dros **500 o**  
**rywogaethau o**  
**blanhigion wedi'u**  
**cofnodi yn Nhwyni**  
**Cynffig**

# Hafan i fywyd gwyllt

Mae twyni tywod yn cefnogi amrywiaeth eithriadol o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid prin ac arbenigol iawn, gyda llawer wedi'u dosbarthu fel rhai dan fygythiad neu'n fregus. Mae twyni'n hollbwysig ar gyfer planhigion blodeuol prin, mwsoglau a llysiau'r afu, ffyngau ac infertebratau.

Maen nhw'n cwmpasu amrywiaeth o gynefinoedd gwahanol ond rhyngddibynol, gan gynnwys tywod mudol noeth, cribau twyni mawreddog, glaswelltir twyni llawn blodau a llaciau corsiog gydag ardaloedd eang o degeirianau.

Mae pob rhan o dirwedd y twyni yn cynnig amodau amgylcheddol unigryw gwahanol a mosaigau cymhleth o ficro gynefinoedd sy'n newid byth a beunydd. Mae'r tywod fel arfer yn llawn calsiwm oherwydd cyfran uchel o gregyn, sy'n ffafrio amrywiaeth eang o blanhigion sy'n caru calch.

Mae bywyd yn y twyni yn heriol iawn gan fod yr amodau'n galed. Mae yno dywod mudol, ewyn hallt a does dim llawer o faetholion ar gael. Mae amrywiadau eithafol rhwng sychder a llifogydd hefyd. O ganlyniad, mae gan rywogaethau arbenigol sydd wedi'u haddasu'n dda i'r amodau heriol hyn fantais dros rywogaethau mwy cyffredin.

Prin yw gwerth twyni tywod fel tir amaethu, felly mae llawer wedi dianc rhag ffermio dwys dros y blynyddoedd, gan osgoi effeithiau aredig, gwrteithiau a phlaladdwyr.


Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn golygu mai twyni tywod yw un o'r ecosystemau mwyaf naturiol a bioamrywiol sy'n weddill yng Nghymru, ac un o'r ychydig leoedd yn yr iseldiroedd lle gall ymwelwyr ddal i brofi ymdeimlad o anialwch a thoreth o fywyd gwyllt.

Cydnabuwyd eu harwyddocâd ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt yng Nghymru, gyda'r mwyafrif o dwyni tywod yn cael eu dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a rhai yn cael eu cydnabod fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. Mae'r systemau twyni yn cael eu hystyried yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, sy'n amlygu eu pwys rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth a'u rôl annatod o fewn rhwydwaith Ewrop o ardaloedd gwarchoddedig.

## Byd o les i bobl Cymru

Yn ogystal â bod yn gyfoethog mewn bioamrywiaeth, mae twyni tywod yn helpu i ddiogelu ein hamgylchedd ehangach. Maen nhw'n gweithredu fel amddiffynfeydd môr naturiol yn erbyn llifogydd ac erydu, yn cynnal ansawdd a llif dŵr croyw, ac yn rhoi hwb i boblogaethau gwenyn a phryfed peillio hanfodol eraill ar gyfer ein cnydau bwyd.

## Gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan dwyni tywod



Mae traethau a thwyni hefyd yn bwysig i economi twristiaeth Cymru ac yn lleoliadau gwyd i wneud ymarfer corff a mwynhau hamdden awyr agored - boed yn hwyl ar y traeth, mynd am dro ben bore, marchogaeth neu sesiwn ffitrwydd.

## Tarddiad twyni

Mae twyni tywod yn datblygu mewn ardaloedd lle mae digon o gyflenwad o dywod yn bodoli ger y lan, sy'n aml yn tarddu o lannau tywod tanddwr a adawyd gan rewlifiant yr Oes Iâ ddiwethaf.

Mae ceryntau a thonnau ffafriol yn cario'r tywod hwn i'r traeth. Er mwyn i dwyni siapio, mae angen i'r arfordir fod yn agored i wyntoedd sy'n chwythu'n gyson tuag at neu ar hyd yr arfordir, gyda digon o gryfder i godi a chludo'r gronynnau tywod i'r tir. Mae twyni yn tueddu i ffurfio y tu ôl i draethau llydan, gwastad lle gall y tywod sychu a chwythu'n rhydd rhwng llanw uchel.

Mae gronynnau tywod yn symud tua'r tir nes bod y gwynt naill ai'n colli egni neu eu bod yn dod ar draws malurion traeth neu blanhigion traethlinau. Mae tywod yn dechrau cronni uwchben y penllanw, gan ddechrau ffurfio'r twyni.

## Ffurio twyni

Wrth sefyll ar dwyni agored ar ddiwrnod gwyntog, gallwch wir werthfawrogi grym y gwynt yn llunio'r ffenomen naturiol hon. Fodd bynnag, mae cyflenwad tywod, dŵr a bywyd planhigion hefyd yn cyfrannu at siapiau unigryw'r twyni, sy'n cael eu nodweddu gan gyfres o gribau sych wedi'u britho â phantiau llaith o'r enw llaciau twyni.


Mae llawer o dwyni yng Nghymru yn arddangos cribau twyni tonnog siâp pedol (parabolas) fel Cwningar Niwbwrch. Ac mae eraill ar ffurf cribau llinol a chafnau, a elwir yn dwyni ardraws, fel y gwelir yn Nhwyni Pen-bre.

Yn eu cyflwr naturiol, mae twyni tywod yn ddeinamig; yn datblygu'n barhaus ac yn cynhyrchu patrymau newidiol o dywod moel ac ardaloedd newydd o wlyptir isel. Dros amser, mae cribau twyni yn tueddu i symud ymlaen i'r mewndir wrth i dywod luwchio'n raddol dros y crib a rhaedru i lawr yr ochr gysgodol, ar gyfradd gyfartalog o 1-2 fetr y flwyddyn fel arfer. Yn ogystal, gall 'chwythbantiau' ffurfio wrth i dywod gael ei sgwrio i ffwrdd mewn symudiadau cylchol, gan greu nodweddion siâp powlen unigryw yn y twyni.


Mae rôl planhigion hefyd yn hanfodol wrth lunio'r twyni. Mae rhywogaethau hynod hyblyg fel moresg yn cytrefu ac yn rhwymo'r tywod noeth, gan ganiatáu i'r twyni gynyddu o ran uchder a sefydlogrwydd.


Olyniaeth yw'r enw ar y broses naturiol o adeiladu system dwyni. Gellir arsylwi ar gyfres o barthau olyniaeth gwahanol, pob un â chymeriad a chyfres o rywogaethau gwahanol. Mae'r parthau hyn yn amrywio o dwyni embryo isel, ifanc ar dop y traeth, ac yna twyni melyn symudol, hyd at dwyni aeddfed a llystyfiant a all fod cymaint â 3 cilomedr i'r mewndir.

Twyni ardraws



Twyni parabolig





## Twyni embryo

Mae twyni embryo yn dechrau siapio ar y draethlin, ar y marc llanw uchel, lle mae broc môr, gwymon a malurion eraill yn dechrau ymgasglu yn y tywod. Pan fydd digon o dywod wedi cronni, mae planhigion twyni arloesol fel hegydd arfor a marchwellt y twyni yn dwyn ffrwyth. Mae eu gwreiddiau'n dal a rhwymo'r tywod ymhellach i ffurfio'r twmpathau isel cyntaf.

Mae goroesi yn yr amgylchedd hwn yn heriol iawn ac mae llystyfiant yn dal yn brin ar y naw. Mae planhigion y twyni embryo wedi'u haddasu'n fawr, gan ddangos goddefgarwch uchel i halen a sychder. Efallai bod ganddyn nhw ddail cwyrtaidd, cnodiog sy'n gwarchod lleithder, neu hadau sy'n gallu cael eu gwasgaru gan y môr.



Twyni embryo ym Morfa Bychan



Hegydd arfor

### Rhywogaethau nodweddiadol twyni embryo

- |                    |                |
|--------------------|----------------|
| Clymwellt          | Tywodlys arfor |
| Marchwellt y twyni | Helys pigog    |
| Hegydd arfor       |                |

## Twyni melyn

### (Twyni blaen neu dwyni symudol)

Lle mae digonedd o dywod, bydd y twyni embryo yn tyfu'n raddol o ran uchder, a bydd moresg yn gwreiddio, gan greu twyni tal a elwir yn 'dwyni melyn'. Mae'r ffurfiannau trawiadol hyn yn cyrraedd uchder o ryw 20 metr yng Nghymru.

Cyfeirir atynt fel twyni symudol, ac mae'r twyni embryo a melyn yn cynnwys tywod rhydd sy'n gallu cael ei chwythu'n hawdd gan y gwynt. O ganlyniad, gall eu siâp a'u lleoliad newid yn sylweddol dros amser.

Mae'r twyni melyn tal yn darparu rhywfaint o gysgod i'r tir y tu ôl iddynt, ond mae eu llethrau serth a'u cribau yn creu amgylchedd anodd i fywyd planhigion. Mae'r lefel trwythiad yn gallu bod sawl metr o dan yr wyneb ac mae dŵr glaw yn draenio'n gyflym trwy'r tywod rhydd. Rhaid i blanhigion ddiodeff sychder eithafol, yn ogystal â thywod sy'n symud yn barhaus ac sydd naill ai'n gallu claddu'r dail neu ddwyn y gwreiddiau i'r golwg.

#### Rhywogaethau nodweddiadol twyni melyn

Clust y gath	Llaethlys y môr
Moresg	Murwyll arfor (De Cymru yn unig)
Taglys arfor	Gwyfyn gludlys
Celynnen y môr	Sbaen



Celynnen y môr

## Moresg

Mae moresg yn rhan ganolog o dwyni melyn a dyma'r brif rywogaeth sy'n gyfrifol am adeiladu twyni yn y DU. Mae gan y glaswellt gwydn hwn sy'n tyfu'n gyflym lawer o addasiadau ar gyfer goroesi. Mae'n gallu goddef halen ac yn cynnwys dail cryf, wedi'u rholio'n fewnol sy'n helpu i leihau colli lleithder.

Gall moresg ymdopi â chael ei gladdu gan dywod yn lluwchio, gan fod ganddo rwydwaith o wreiddgyffion cadarn (coesynnau tanddaearol wedi'u haddasu) sy'n angori'r planhigyn yn gadarn ac yn gyrru gwreiddiau a chyffion allan. Gall y gwreiddiau sy'n tyfu'n gyflym gyrraedd sawl metr o hyd ar i lawr ac ar draws, gan eu galluogi i drechu gorlif tywod a chyrraedd dŵr yn ystod cyfnodau sych. Mae'r patrwm twf hwn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar siâp y twyni sy'n ffurfio – gan arwain at linellau hir o dwyni troellog.

## Cronni ac erydu

Mewn rhai rhannau o arfordir Cymru, mae cerrynt y môr yn cario cyflenwadau helaeth o dywod, gan arwain at gronni neu gynyddu (adeiladu) twyni embryo a thwyni melyn. Yn yr achosion hyn, mae'r twyni'n symud yn raddol tua'r môr ac yn arwain at greu tir newydd.

Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill (weithiau gerllaw) mae twyni yn erydu. Yn yr achosion hyn, mae'r twyni embryo yn diflannu'n llwyr, gan adael clogwyni tywod serth y tu ôl, wrth i stormydd y gaeaf gerfio i'r twyni melyn.



Twyni blaen ym Morfa Harlech





## Twyni llwyd (twyni eilaidd, twyni sefydlog)

Ymhellach i mewn i'r tir mae'r 'twyni llwyd', sy'n hŷn ac sydd wedi datblygu o dwyni oedd yn dwyni melyn yn wreiddiol. Yn aml, rhain yw'r mwyaf yn y system dwyni, ac maen nhw'n gallu cyrraedd dros 20 metr o uchder, ond mae twyni tywod neu wastadeddau tywod helaeth is, tonnog, yn gyffredin hefyd. Cânt eu galw hefyd yn dwyni 'eilaidd' neu 'sefydlog', ac mae'r twyni tywod hyn fel arfer wedi'u sefydlogi gan orchudd llystyfiant, sy'n eu hatal rhag symud. Serch hynny, mae erydiad lleol yn gallu golygu bod darnau o dywod noeth neu chwythiadau.


I ffwrdd o'r draethlin, mae'r amodau'n llai garw ac mae haen denau o bridd organig tywyllach yn datblygu, gan ganiatáu i fwy o blanhigion ffynnu. Mae twyni llwyd Cymru sy'n llawn calsiwm yn

cynnal glaswelltiroedd twyni helaeth gyda blodau o bob lliw a llun. Mae'r cynefinoedd blaenoriaeth Ewropeaidd hyn yn gallu brolio dros 30 o rywogaethau planhigion gwahanol fesul metr sgwâr ar rai safleoedd.

Yng Nghymru, mae o leiaf 20 o blanhigion hynod o brin neu anghyffredin wedi eu cofnodi ar y twyni llwyd, gan gynnwys fioled y cŵn, pig-y-crëyr ludiog, crwynllys y maes a mandon fach.

Mae rhywogaethau planhigion blynyddol llai cyffredin, fel rhonwellt y tywyn, sgorpionllys cynnar a berwr y bugail wedi addasu i amodau sych trwy gwblhau eu cylch bywyd yn gyflym. Maen nhw'n blodeuo'n gynnar yn y gwanwyn, cyn y rhan fwyaf o blanhigion, ac yn gosod hadau cyn dechrau'r haf.

Gelwir tywod rhydd sy'n cael ei gario gan y gwynt yn 'law tywod'. Wrth iddo setlo ar laswelltir twyni mae'n dod â llwyth o galsiwm ffres sy'n dod â maeth i gymunedau'r planhigion.



Y ganrhi goch a gwyfyn y tagaradr



Pansi'r twyni



Twyni llwydion yn Nhwyni Chwitfordd

### Rhywogaethau nodweddiadol y twyni llwyd

Crwynllys yr hydref	Mwyar Mair
Troellig yr hydref	Pansi'r twyni
Pysen-y-ceirw	Plucen felen
Y ganrhi goch	Briwydd felen
Ysgallen	Tegeirian bera
Siarl	Peiswellt coch
Llwyn	Gwyfyn y tagaradr

## Llaciau twyni

Pantiau gwastad isel rhwng y twyni yw llaciau twyni. Maen nhw fel arfer yn profi llifogydd yn y gaeaf ac amodau llaith yn yr haf. Mae llaciau'n datblygu pan fydd gwynt yn sgwrio tywod i ffwrdd o'r tu ôl i gribau twyni sy'n tyfu neu o chwythiadau siâp dysgl. Unwaith y cyrhaeddir y lefel trwythiad, mae'r erydiad yn gorffen gan fod y tywod dirlawn yn llonydd, gan arwain at greu gwaelod gwastad i'r llac.

Mae'r cynefin gwlyptir sy'n deillio o hynny, ac sy'n gyfoethog mewn calsiwm, yn gallu cynnal amrywiaeth ryfeddol o fywyd planhigion. Er bod yr amodau'n llai caled nag yn y twyni blaen, mae maethynnau'n dal yn brin a rhaid i blanhigion wrthsefyll llifogydd o bryd i'w gilydd.

Mae'r llaciau twyni yn enwog am eu sioe syfrdanol o flodau, gan greu un o'r prif gynefinoedd tegeirian y tu allan i'r trofannau. Mae caldrist y gors, un o'r tegeirianau Prydeinig mwyaf deniadol, yn ffynnu yn y cynefinoedd hyn, gan ffurfio carpedi trawiadol o flodau. Ymhlith y planhigion prin ac anghyffredin eraill sydd i'w gweld mewn llaciau twyni mae tegeirian y fign galchog, petal-lys, caldrist y twyni, crwynlllys Cymreig, brial y gors, y ganrhi goch arfor a sawl rhawn yr ebol.

Fel arfer, mae'r gorhelygen yn bresennol mewn llaciau twyni, ac mewn rhai achosion mae'n dal neu'n trapio tywod chwyth i greu ponciau bach, twmpathau neu 'dwyni draenogod' fel y'u gelwir oherwydd eu siâp crwn nodweddiadol.

### Rhywogaethau nodweddiadol llaciau twyni

Crwynlllys yr hydref	Caldrist y gors
Corhelygen	Tegeirian-y-gors deheuol
Tegeirian-y gors cynnar	Marchrawnen fraith
Caldrist y gors	Mintys y dŵr



Caldrist y gors



Tegeirian-y-gors



Llaciau twyni Cynffig yn y gaeaf

## Rhostir twyni

Mae rhostir twyni yn gynefin prin yng Nghymru; fel arfer i'w ganfod ymhellach i mewn i'r tir mewn twyni mwy aeddfed. Dros amser, mae dŵr glaw yn trwytholchi'r calsiwm allan o'r tywod, gan ei wneud yn fwy asidig, ac yn braenaru'r tir i alluogi grug a chen i ddatblygu.

Mae astudiaethau'n dangos y gall gymryd hyd at 200 mlynedd i briddoedd gyrraedd lefelau asidedd a fydd yn cynnal rhostir twyni. Yn anffodus, mae rhannau mewndirol y twyni yn fwy tebygol o gael eu datblygu neu eu defnyddio ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth, gan beryglu'r cynefin gwerthfawr hwn.



Rhostir twyn yng Nghymyran



Rhostir twyni yng nghoedwig Niwbwrch gyda chen byseddog

### Rhywogaethau nodweddiadol rhostir twyn

- Grug y mêl
- Cen byseddog
- Grug (ling)
- Briwydd wen
- Suran yr ŷd
- Peiswellt y defaid

## Twyni aeddfed

Twyni aeddfed, a elwir hefyd yn dwyni cefn neu dwyni trydyddol, yw'r twyni hynaf yn y system a rhain sydd bellaf i ffwrdd o'r traeth. Wrth i'r amodau ffisegol ddod yn llai eithafol a deunydd organig yn cronni yn y pridd, mae'r maethynnau a'r lefelau lleithder yn cynyddu. O ganlyniad, gall planhigion cyffredin llai arbenigol, mwy egniol, oroesi. Dros amser, mae prysgwydd uchel a choetir twyni yn gwreiddio gan weddnewid y dirwedd. Fodd bynnag, os oes digon o dda byw neu gwingod yn pori yno, bydd yr ardal yn parhau fel glaswelltir agored neu fosaig o laswelltir a phrysgwydd, yn hytrach na thrawsnewid yn goetir aeddfed.



Twyni aeddfed yng Nghynffig

## Gwlyptir parhaol

Yn ogystal â llaciau twyni sydd wedi dioddef llifogydd o bryd i'w gilydd, mae gan lawer o dwyni gynefinoedd dŵr croyw parhaol, sydd hefyd yn hanfodol i fywyd gwyllt.

Pwll Cynffig yw'r llyn naturiol mwyaf yn Ne Cymru. Mae bron yn 30 hectar, ac mae'n enghraifft amlwg o lyn o fewn system twyni. Yn Nhywyn Aberffraw, crëwyd Llyn Coron wrth i dwyni ehangu a chronni Afon Ffraw yn rhannol.

Gall cynefin twyni tywod drosglwyddo i gorstiroedd a gwernydd ochr yn ochr â llynnoedd ac afonydd, ac i forfa heli a fflatiau llaid ar gyrion aberoedd. Er enghraifft, ar Benrhyn Gŵyr mae twyni Chwitfordd yn pontio i Gors Llanrhidian, safle gaeafu pwysig ar gyfer adar gwyllt ac adar hirgoes.

Mae cyfres o byllau gwneud wedi'u gwasgaru ar hyd llennyrch Coedwig Niwbwrch. Maen nhw'n arbennig o gyfoethog mewn bywyd gwyllt, ac yn cynnal rhywogaethau prin fel y fadfall gribog, gelen feddyginiaethol, tafolen y traeth a rhawn yr ebol prin.


## Ffyngau twyni tywod

Mae twyni tywod yn un o'r cynefinoedd pwysicaf ar gyfer ffyngau yng ngwledydd Prydain, ac mae amrywiaeth eang o rywogaethau ar dwyni Cymru, yn enwedig yn yr hydref. Y caws llyffant gweladwy yw'r cyrff ffrwytho uwchben y ddaear - mae prif ran y ffwng (myceliwm) yn parhau i fod o'r golwg dan y ddaear.

Mae ffyngau'n rhyngweithio â gwreiddiau planhigion eraill, gan ddadelfennu deunydd marw a helpu i dderbyn maethynnau. Mae'r cydgyunedau mycorhisol hyn yn darparu gwasanaeth hanfodol trwy helpu planhigion i gytrefu a thyfu yn amgylcheddau'r twyni sy'n brin o faethynnau.

Mae 60 o rywogaethau o ffyngau mwy sydd ddim ond i'w cael ar dwyni, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u haddasu i gytrefu twyni symudol. Fodd bynnag, mae llawer mwy o rywogaethau cyffredin ym mhob cynefin twyni.

Mae toreth o genau yn gallu tyfu ar dwyni, a hynny ar wyneb y tywod. Mae'r rhain yn cynnwys 'cen carw' *Cladonia* a rhywogaethau llai sy'n ffurfio crwst lle mae'r tywod yn arbennig o gyfoethog mewn calch.



### Ffyngau nodweddiadol twyni Cymru

Cap cwyr cyffredin y twyni

Ambarél carpiog  
Morel melyn

### Ffyngau arbenigol y twyni

*Coprinus ammophilae*

*Geastrum schmidellii*

*Hohenbuehlia culmicola*

*Melanoleuca cinereifolia*

*Peziza ammophila*  
(ffwng cwpan)

*Phallus hadriani*  
(cingroen)

*Psathyrella ammophila*

## Mwsoglau a llysiâu'r afu

Mae twyni hefyd yn hanfodol ar gyfer ystod o fwsoglau a llysiâu'r afu prin fel petal-lys (Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop), yn ogystal â mwsoglau *Bryum* thread a mwsoglau *Drepanocladus*. Er mai planhigion bach digon di-nod yw'r rhain ar yr olwg gyntaf, maen nhw'n rhan annatod o'r fflora twyni tywod amrywiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau prin yn ffynnu yn amgylcheddau tywodlyd llaith ac agored llaciau twyni ifanc, cyn i blanhigion eraill ymsefydlu.

## Ymlusgiaid ac amffibiaid

Mae twyni tywod yn gynefinoedd pwysig i amffibiaid ac ymlusgiaid. Y rhywogaethau rydych chi fwyaf tebygol o ddod ar eu traws yw'r madfall, neidr ddefaid, madfall ddŵr gyffredin a balfog, llyffant dafadennog a broga, yn ogystal ag ambell wiber a neidr y gwair.

Mae twyni tywod yn hafan i dair rhywogaeth brin a warchodir gan Ewrop hefyd. Ar ôl diflannu o'r tir yng Nghymru, mae madfallod y tywod wedi eu hailgyflwyno mewn sawl twyn, rhwng Ynys-las a Thalacre, ac ar benrhyn Gŵyr. Er mai rhostiroedd de Lloegr yw'r prif gadarnle, mae'r hinsawdd oerach yng Nghymru yn golygu eu bod wedi'u cyfyngu i dwyni tywod. Maen nhw'n dibynnu ar yr amodau cynnes a geir yn y twyni blaen, lle gallan nhw ddodwy eu hwyau mewn tywod noeth. Mae'r cymysgedd o dywod agored a moresg trwchus hefyd yn darparu cysgod a chyfleoedd i hela am infertebratau.

Mae llyffantod y twyni i'w gweld yn nhwyni Gronant a Thalacre, lle maen nhw hefyd wedi eu hailgyflwyno. Mae'r llyffantod hyn yn gosod llinyn o wyau mewn pyllau bas sydd fel arfer yn sychu'n llwyr ddiwedd y gwanwyn neu'r haf, ac mae hyn yn helpu i gael gwared ar ysglyfaethwyr posibl. Mae llyffantod y twyni angen mosaig o gynefinoedd, gan gynnwys tywod agored, moresg trwchus a glaswelltir twyni byr sy'n llawn infertebratau.

Mae madfallod dwr cribog yn magu mewn pyllau dyfnach a llaciau twyni mewn systemau twyni gwlypach fel yng Nghoedwig Niwbwrch a Thwyni Cynffig. Maen nhw'n porthi yn y cynefin llaith o'u cwmpas ac yn gaeafgysgu dan foncyffion neu mewn tyllau yn ystod y gaeaf.

## Infertebratau

Mae'r amrywiaeth o gynefinoedd gwlyb a sych ar y twyni yn creu hafan i bryfed ac infertebratau eraill. Yn wir, mae ymchwilyr wedi cofnodi dros 5,000 o rywogaethau o infertebratau mewn ecosystemau twyni, gyda 460 ohonynt wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i'r cynefinoedd hyn. Defnyddir y tywod agored hwn sy'n draenio'n rhydd ar gyfer nythu neu hela, ac mae'r planhigion blodeuol toreithiog yn ffynhonnell fwyd ar gyfer larfâu a rhai llawn dwf.

Mae'r twyni blaen ac ardaloedd eraill o dywod moel yn cynnal llawer o rywogaethau arbenigol twyni tywod prin nad ydyn nhw i'w cael yn unrhyw le arall. Er enghraifft, mae chwilen y draethlin *Eurynebria complanata* yn nodweddiadol o draethlinau llonydd arfordir De Cymru.



Tywod moel y twyni melyn yw'r tir hela ar gyfer chwilen deigr y twyni *Cincindela maritima*; tra bod gwenynen durio'r gwanwyn *Colletes cunicularius* yn defnyddio ardaloedd tywod agored i greu tyllau nythu, ond yn porthi'n gyfan gwbl ar gornhelyg. Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth y DU o'r ddwy rywogaeth hyn i'w cael ar dwyni Cymru. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru o'r gardwenynen dorchfrown wedi'u cyfyngu i systemau twyni, tra mai Cynffig yn un o'r ychydig lefydd yng Nghymru sy'n gartref i'r gardwenynen torchfrown.

Mae infertebratau eraill fel y pry lladd *Pamponerus germanicus* a'r pryf pigfain *Dialineura anilis*, yn fwy cyffredin yn nhwyni Cymru nag yn unman arall yn y DU.

Y rhywogaethau arbenigol twyni tywod hyn sydd wedi'u taro galetaf gan golli tywod noeth ar dwyni Cymru, gyda phoblogaethau'n dirywio'n sylweddol dros y degawdau diwethaf. Er hynny, maen nhw'n gytrefwyr arbenigol ac yn prysur boblogi ardaloedd newydd o dywod noeth, p'un a yw'r rheiny yn cael eu ffurfio'n naturiol neu trwy gamau cadwraeth.

Mae malwod, sy'n defnyddio calsiwm i adeiladu eu cregyn, yn niferus iawn ar y twyni hyn sy'n gyfoethog mewn calch. Mae malwod yn cyrraedd eu hamrywiaeth fwyaf ar laswelltir twyni ac yn cynnwys rhywogaethau fel malwen y rhosydd *Helicella itala* a'r falwoden bigfain *Cochlicella acuta*.

Rhywogaethau mwy amlwg y gellir eu gweld yw'r gloynnod byw a'r gwyfynod sy'n doreithiog ledled y twyni gyda'r rhai llawn dwf a'r lindys yn bwydo ar blanhigion arfordirol. Mae picell y tywod a gwladwr y twyni yn wyfynod arbenigol y twyni embryo, sy'n bwydo ar hegydd arfor a marchwellt y twyni. Tra mae rhywogaethau o loynnod byw fel y glesyn bach, y glesyn cyffredin a'r iâr fach gleisiog a gwyfynod fel teigr y benfelen a chydymaith y bwrned chwe smotyn yn ffynnu ar yr ystod amrywiol o gynefinoedd twyni.

## Adar

Mae'r ehedydd, llinos a chlochdar y cerrig i'w gweld ar y twyni ledled Cymru yn yr haf. Mae adar hirgoes, fel y gornchwiglen, yn gaeafu ar aberoedd gerllaw, ond yn dod i'r twyni i fridio. Hefyd, gallwch weld y frân goesgoch yn bwydo ymysg y tywyrch byrrach weithiau. Ar y draethlin, mae'r cwtiad torchog i'w weld yn aml mewn mannau lle ceir cymysgedd o raeau mân a thywod i guddliwio yn eu plith, ac yng Ngronant a Thalacre mae'r nythfa fwyaf o fôr-wenoliaid bychain yng Nghymru.



Glesyn cyffredin



Cardwenynen fain



Ehedydd



Fferm Cwningar yn Niwbwrch cyn sefydlu'r blanhigfa gonwydd yn 1947



Tanciau ar Forfa Harlech

## Hanes y twyni

Er bod y twyni tywod yn gallu ymddangos yn ardaloedd o anialwch naturiol, maen nhw wedi'u rheoli gan bobl ers sawl canrif. Yn draddodiadol, fe'u defnyddiwyd i bori da byw a magu cwingnod wrth eu miloedd am gig a ffwr. Mae'r hanes hwn yn amlwg mewn enwau lleoedd lleol sy'n aml yn cynnwys 'Cwningar' neu 'Twyni'.

Mae Cwningar Niwbwrch yn unigryw fel un o'r ychydig dwyni ym Mhrydain lle defnyddiwyd moresg yn fasnachol i wneud gorchuddion tas wair, matiau, rhaffau a basgedi. Mae'r arfer yn dyddio'n ôl i'r 16eg ganrif, a datblygodd dros amser i fod yn ddiwydiant domestig ffyniannus.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, bu llawer o dwyni yn ardaloedd ar gyfer hyfforddi milwrol neu brofi arfau. Mae olion yr hen feysydd tanio, y rhagorsafodd concrit, rheilffyrdd, a lleiniau maes awyr hudo yn amlwg hyd heddiw.

Yn ystod yr 20fed ganrif, collwyd llawer o dwyni tywod i ffermio dwys, byd diwydiant, tai a datblygiadau twristaidd, fel meysydd carafanau a chysiau golff. Hefyd, sefydlwyd planhigfeydd conwydd er mwyn helpu i sefydlu tywod symudol a darparu ffynhonnell o bren. Adeiladwyd amddiffynfeydd môr caled hefyd, sy'n gallu amharu ar symudiad naturiol tywod ar hyd yr arfordir ac effeithio ar gyflenwad tywod i'r twyni.

Wrth i bobl ddechrau cydnabod pwysigrwydd twyni tywod fel rhan o dreftadaeth naturiol ein gwlad, gwnaed ymdrechion i sicrhau amddiffyniad cyfreithiol. Cafodd Cwningar Niwbwrch ei nodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol ym 1955, a dilynwyd hynny gan nodi saith safle twyni arall. Heddiw, mae'r holl systemau twyni sylweddol wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae'r prif systemau hefyd yn cael eu hystyried yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Fodd bynnag, mae llawer o dwyni bach yn dal i fod heb warchodaeth arbennig.

## Y pwysau a'r bygythiadau i dwyni tywod Cymru

Er gwaetha'r ffaith fod twyni yng Nghymru bellach wedi'u diogelu i raddau helaeth rhag datblygu, mae poblogaethau llawer o rywogaethau prin ac arbenigol yn gostwng ac mae cyflwr y cynefin yn dirywio. Mae 'cyflwr anffafriol' y twyni yn ganlyniad cyfuniad o bwysau a bygythiadau.

### Ffactorau ar y safle

- **Colli da byw pori:** Mae lefel y pori, yn enwedig gan wartheg, wedi gostwng dros amser oherwydd heriau economaidd ac ymarferol sy'n wynebu ffermwyr sy'n rheoli glaswelltir cynhyrchiant isel. Heddiw, dim ond yn rhannol mae llawer o dwyni yn cael eu pori - os o gwbl - gan arwain at ordyfiant llystyfiant a phrysgwydd uchel.
- **Dirywiad mewn poblogaethau cwningod:** Mae cwningod yn rhywogaethau allweddol ar dwyni gan fod eu pori a'u tyllu yn creu amodau delfrydol ar gyfer bywyd gwyllt arall. Fodd bynnag, mae poblogaethau uchel o gwningod y gorffennol wedi cael eu lleihau'n aruthrol gan glefydau fel myxomatosis. Mae'r ffaith bod llai o dda byw ar y twyni yn cael effaith negyddol ar gwningod hefyd, gan eu bod nhw angen tywyrch byr sydd wedi'i bori, i fwydo.
- **Rhywogaethau estron goresgynnol:** Yn y gorffennol, cafodd planhigion anfrodorol i dwyni Cymru, fel helygen y môr, eu plannu mewn ymgais i sefydlogi'r tywod sy'n symud. Cyrhaeddodd rhywogaethau estron eraill, fel

rhosyn Japan a chrib-y-ceiliog/*Crocsmia* trwy ddympio gwastraff gardd neu lanw uchel. Ar ôl ymsefydlu, gall rhywogaethau o'r fath ledaenu i fygau ardaloedd mawr o dwyni, gan ddinistrio cynefinoedd naturiol a rhwystro mynediad i bobl a da byw.

- **Coedwigo:** Mae planhigfeydd conwydd yn newid ecoleg y twyni yn sylfaenol. Mae'r coed yn cysgodi'r llystyfiant presennol, yn cynyddu asidedd pridd a lefelau maethynnau, ac yn creu haenau o sbwriel nodwydd a malurion. Ar ben hynny, mae gan gonwydd ofynion dŵr uchel gydol y flwyddyn, gan ostwng lefelau dŵr daear ac achosi llaciau twyni i sychu, hyd yn oed gryn bellter i ffwrdd.
- **Mesurau sefydlogi:** Yn y gorffennol, roedd tywod symudol yn cael ei ystyried yn fygythiad ac roedd pobl yn meddwl bod ecosystem y twyni yn fregus. Roedd ymdrechion rheoli yn canolbwyntio ar sefydlogi'r twyni gan gredu y byddai hyn yn helpu i'w diogelu. Roedd enghreifftiau o fesurau o'r fath yn cynnwys plannu moresg a chodi ffensys i ddal tywod.

### Ffactorau ehangach

- **Darnio cynefinoedd:** Yn wahanol i'w maint gwreiddiol, mae twyni tywod yng Nghymru bellach yn gymharol fach ac wedi'u hynysu oddi wrth ei gilydd. Mae'r darnio cynefinoedd hwn yn rhwystro rhywogaethau rhag mudo o safle i safle.
- **Gwasgfa arfordirol:** Mae cynnydd yn lefelau'r môr yn lleihau'r lle sydd ar gael ar gyfer twyni tywod rhwng y marc penllanw a'r seilwaith dynol, fel amddiffynfeydd môr, ffyrdd neu drefi.





Mewn llawer o achosion, dyw twyni tywod ddim yn gallu ymateb mwyach i newidiadau amgylcheddol drwy symud ar hyd yr arfordir neu rollo mewn i'r tir.

- **Llai o gyflenwad tywod:** Gall amddiffynfeydd môr artiffisial neu waith carthu ar y môr amharu yn ddifrifol ar y cyflenwad o dywod i'r twyni. Mae newid hinsawdd yn gallu newid cerrynt ar y môr, sydd hefyd yn cyfyngu ar ddarparu tywod newydd.
- **Newid yn amodau dŵr:** Gall echdynnu dŵr daear a draenio artiffisial sychu gwlyptiroedd twyni. Ac mae llygredd dŵr yn gallu cyflwyno gormod o faethynnau sy'n achosi newidiadau negyddol i llystyfiant gwlyptir.
- **Llygredd aer:** Mae cludiant ar longau, traffig ffyrdd, diwydiant a ffermio i gyd yn creu llygredd aer sy'n effeithio ar dwyni tywod. Yn naturiol, mae gan dwyni lefelau maethol isel y mae rhywogaethau arbenigol wedi addasu iddyn nhw. Mae llygredd aer yn cynyddu dyddodion nitrogen, amonia a sylffwr deuocsid, sy'n cyfoethogi'r pridd fel gwrrtaith. Mae hyn yn ffafrio twf ystod lai amrywiol o rywogaethau bras a chystadleuol fel glaswellt tal, helyglys, ysgall, miaren a barf yr hen ŵr.
- **Newid hinsawdd:** Mae gaeafau cynhesach a hafau gwlypach yn hyrwyddo gordyfiant llystyfiant ar y twyni, tra mae cyfnodau o sychder yn effeithio'n negyddol ar y cynefinoedd gwlyptir. Gall stormydd difrifol y gaeaf wella symudedd y twyni, ond maen nhw hefyd yn peri risg o erydu'r twyni blaen ac achosi llifogydd arfordirol.

## Tirwedd sy'n prysur newid

Mae effaith gyfun y ffactorau hyn wedi trawsnewid tirwedd twyni tywod dros yr 80 mlynedd diwethaf. Yng nghanol yr 20fed ganrif, roedd dros 70% o'r twyni yng Nghymru yn cynnwys tywod agored, symudol ochr yn ochr â mosaig amrywiol o gynefinoedd twyni. Ers hynny, mae'r twyni wedi'u gorchuddio bron yn llwyr gan llystyfiant ac mewn mannau maen nhw wedi gordyfu gyda glaswelltau bras, mieri neu redyn, prysgwydd a hyd yn oed coed. Er bod twyni yn naturiol yn mynd trwy olyniaeth ecolegol, mae effeithiau dynol wedi cyflymu'r broses hon

O ganlyniad, mae'r twyni wedi sefydlogi'n ormodol (neu sefydlu'n gyfangwbl), ac mae bron i 90% o dywod noeth agored wedi'i gollu. O ganlyniad mae systemau twyni naturiol deinamig gyda thywod chwyth bron wedi diflannu yng Nghymru. Er mwyn ceisio cael cymaint o fioamrywiaeth â phosib, dylai system twyni tywod ddelfrydol fod â 30-40% o'r ardal fel cynefinoedd arloesol, gan gynnwys 10-15% o dywod moel. Mae llawer o rywogaethau anghyffredin yn ffynnu yn ystod camau cynnar olyniaeth ecolegol, felly mae colli'r amodau arloesol hyn wedi arwain at ddirywiad mewn poblogaethau o fywyd gwyllt prin, tra arbenigol ac mewn rhai achosion maen nhw wedi diflannu'n llwyr yn lleol. Mae rhywogaethau fel tegeirian y fign galchog, petal-lys, chwilen ddaear, gwenyn durio'r tywod a madfall y tywod bellach dan fygythiad, ac yn dibynnu'n aml ar ymdrechion cadwraeth penodol er mwyn goroesi.




## Rheoli twyni

Fel stiwardiaid yr amgylchedd, ein cyfrifoldeb ni yw mynd i'r afael â'r heriau hyn os ydym am ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau twyni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae rheolaeth weithredol yn angenrheidiol i sicrhau bod ein twyni yn parhau i fod yn hafan i fywyd gwyllt a phobl.

Ers y 1990au, bu newid radical mewn agweddau tuag at gadwraeth twyni tywod, gan fod arwyddocâd prosesau dynamig naturiol wedi cael ei gydnabod. Heddiw, mae ymdrechion rheoli yn canolbwyntio ar adfer pob math o gynefinoedd cam olynol cynnar, ailsefydlu ardaloedd o dywod noeth a hwyluso twyni symudol.

Mae arferion rheoli cadwraeth nodweddiadol ar gyfer twyni yn cynnwys y mesurau canlynol:

- Creu bylchau yn y twyni blaen i annog y gwynt i chwythu tywod i'r twyni.
- Tynnu tywyrch o dwyni i ddatgelu tywod noeth, gan ganiatáu i gynefinoedd cam olynol cynnar ddatblygu a chynyddu symudedd tywod.
- Gostwng wyneb y llaciau twyni sych i ail-greu pyllau a chynefinoedd gwlyb, ac amodau arloesol.
- Cynnal neu ailsefydlu pori cynaliadwy gan dda byw, a allai gynnwys trwsio neu godi ffensys newydd mewn rhai ardaloedd.
- Lladd gwair i ffafrio planhigion arbenigol twyni sy'n tyfu'n isel.
- Cynnal poblogaethau cwningod, trwy dorri gwair i greu ardaloedd pori newydd a chreu cwningarodd artiffisial.
- Cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol sy'n gallu mygu rhannau mawr o'r twyni.
- Rheoli prysgwydd brodorol i'w atal rhag dominyddu'r twyni ac er mwyn creu mosaig cytbwys o brysgwydd ac ardaloedd agored.
- Cwmpo neu deneuo ardaloedd o gonwydd.
- Blocio ffosydd ac adfer nentydd i'w proffil naturiol.



Gwartheg yn Nhywyn  
Aberffraw

## Ymweld â'r twyni

Mae llawer o dwyni yn cael eu rheoli gan sefydliadau'r sector gwirfoddol, awdurdodau lleol, neu asiantaethau'r llywodraeth fel Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n croesawu mynediad cyhoeddus cyfrifol ac yn annog pobl i fwynhau'r tirweddau hardd hyn.

Fodd bynnag, mae rhai twyni yn eiddo preifat gyda mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad o gwbl, ac eithrio ar yr hawliau tramwy dynodedig. Mae safleoedd eraill yn ganolfannau profi milwrol neu barthau hyfforddi, sydd ar gau i'r cyhoedd. Ymhlith y llefydd gwych i fynd am dro mae Tywyn Aberffraw, Cwningar a Choedwig Niwbwrch, Morfa Dyffryn, Ynys-las, Ystangbwl, Arfordir Pen-bre, Twyni Cynffig a Merthyr Mawr. Mae'r tymor blodeuo ar ei anterth rhwng canol mis Mai a chanol mis Gorffennaf, ond mae'n werth ymweld â nhw unrhyw adeg o'r flwyddyn.

## Cyfrannu

Mewn rhai safleoedd twyni, mae teithiau cerdded tywys a digwyddiadau rheolaidd yn cael eu cynnal, yn ogystal â grwpiau gwirfoddol i helpu gyda gwaith ymarferol neu fonitro. Hefyd, os ydych chi'n gweld unrhyw fywyd gwyllt diddorol yn y llefydd hyn, gallwch ddweud wrth Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru. Ewch ar y cyfryngau cymdeithasol neu'r gwefannau perthnasol am fanylion.

Yn fwy na dim, gallwch wneud gwahaniaeth trwy fod yn llysgennad twyni tywod. Soniwch wrth eich ffrindiau a'ch teulu am rôl hanfodol twyni wrth warchod treftadaeth naturiol ein gwlad.



## Cadw'n ddiogel ar y twyni

- **Dylai ymwelwyr wisgo dillad addas** gan fod y tywydd yn gallu bod yn eithafol ar y twyni gwyntog, heb loches na chysgod.
- **Byddwch yn ymwybodol o faint** y safleoedd twyni mwy na pha mor anghysbell ydyn nhw - does dim signal ffôn bob amser.
- **Cymerwch ofal** wrth gerdded gan fod y ddaear yn aml yn rhydd ac ansefydlog, yn enwedig ar y cribau uchel, ac yn llawn peryglon baglu fel tyllau cwningod.
- **Peidiwch byth â chyffwrdd** eitemau anhysbys rhag ofn mai bom heb ffrwydro yw e.
- **Ceisiwch osgoi** cloddio i'r twyni gan fod tywod yn gallu cwmpo.
- **Peidiwch** â mynd yn agos at dda byw.
- **Gwiriwch** am drogod wrth ddychwelyd.

## Chwaraewch eich rhan

- **Gall sathru ysgafn gan ymwelwyr** ar gynefinoedd twyni gael effaith gadarnhaol, gan ei fod yn helpu i gynnal ardaloedd o dywod agored a chynyddu symudiad tywod. Fodd bynnag, gall gormod o bwysau gan ymwelwyr fod yn broblem mewn lleoliadau sensitif fel traethlinau gyda thwyni embryo sy'n datblygu, twyni asidig gyda chymunedau cen bregus, neu ardaloedd lle mae llawer o bobl yn ymgynnull i gael mynediad i'r traeth neu'r cyfleusterau.
- **Mae ymwelwyr a'u cŵn sy'n tarfu** ar fywyd gwyllt yn broblem. Mae'n broblem arbennig yn ystod y tymor bridio o ddechrau mis Mawrth hyd ddiwedd mis Awst, pan mae cŵn yn gallu dinistrio nythod adar sy'n nythu ar y tir neu ddifrodi pyllau gydag amffibiaid bridio. Mae baw cŵn hefyd yn cyfrannu llygredd maethynnau ar y twyni. Felly, dylai ymwelwyr gadw cŵn dan reolaeth ofalus a glanhau ar eu holau.
- **Mae sbwriel, barbeciws a gweryslla anghyfreithlon** yn creu problemau ychwanegol. Dylai ymwelwyr ddilyn y Cod Cefn Gwlad ac unrhyw ganllawiau lleol penodol i sicrhau profiad cadarnhaol a chynaliadwy i bawb.

A wide-angle photograph of a coastal landscape featuring sand dunes. The foreground is dominated by light-colored sand with several clumps of tall, thin, brownish grasses. In the middle ground, there are more dunes covered with low-lying green shrubs and patches of sand. The background shows a clear blue sky and distant, hazy hills or mountains. The overall scene is bright and sunny.

[cyfoethnaturiol.cymru/TwyniByw](http://cyfoethnaturiol.cymru/TwyniByw)

Morfa Dyffryn